| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 'Ysgrifennu' Hunlun. |
| Disgrifiad: | Creu delwedd graffig o Dylan, ac yna eich hun, gan ddefnyddio iaith. (2 sesiwn) |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | Ysgrifennu<br>**Ysgrifennu'n gywir**<br>* Iaith<br>Bl3/Bl4/Bl5/Bl6<br>defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol.<br><br>*Cystrawen, atalnodi, sillafu, llawysgrifen.<br>Bl3<br>• cychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml<br>Bl4<br>• amrywio trefn geiriau, ymadroddion a chymalau mewn brawddegau<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu'n fanwl gywir<br>Bl5<br>• defnyddio strwythurau brawddeg gwahanol, gan gynnwys brawddegau cymhleth sy'n dangos perthynas amser neu achos,<br>Bl6<br>• defnyddio strwythurau brawddeg amrywiol er mwyn pwysleisio a chreu effaith<br>• defnyddio'r ystod gyfan o atalnodi'n gywir i wneud i'r ystyr fod yn glir |
| Testun Dylan Thomas | Gellir cysylltu'r gweithgaredd hwn â 'Return Journey' neu 'Fern Hill'. Meddwl am sut roedd Dylan yn blentyn ac yna'n oedolyn pan ddychwelodd i Abertawe ar ôl y rhyfel. |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Templedi ffonau clyfar<br>• Taflen Hunlun Dylan<br>• Grid Crynhoi<br>• Taflen Swigod Siarad Hunlun |
| Trefn addysgu a awgrymir: | • Gan ddefnyddio www.rockandrollpoet.co.uk, ymchwiliwch a thrafod sut un oedd Dylan, ble roedd e'n byw, beth roedd e'n ei wneud ac ati yn blentyn ac yna'n oedolyn. Mewn grwpiau neu fel dosbarth cofnodwch gronfa o eiriau y gellir eu defnyddio i ddisgrifio Dylan yn ystod y cyfnodau hynny. |

| | |
|---|---|
| | • Beth yw hunlun? Sut mae'n cymharu â Hunanbortread traddodiadol? Defnyddiwch ddelwedd Hunlun 'Dylan' (fel oedolyn) ac yn y ddelwedd 'testun' wag, fel dosbarth, ysgrifennwch y geiriau allweddol i'w ddisgrifio ar y pryd.<br>• Ysgrifennu ar y cyd - Petaen ni'n 'ysgrifennu' Hunlun Dylan gan ddefnyddio'r syniadau a'r geiriau hyn, beth fyddai'r hunlun yn ei ddweud?<br>• Gan ddefnyddio ymchwil unigol, mae'r dysgwyr yn 'ysgrifennu' hunlun am Dylan, naill ai fel roedd yn oedolyn neu'n blentyn.<br>• Gêm gynhesu - Gan ddefnyddio cardiau neu ffyn lolipop enwau'r dosbarth, rhowch un i bob dysgwr. (Gwnewch yn siŵr nad oes gan neb ei enw ei hun). Heb ddatgelu pwy maen nhw wedi'i ddewis, mae'r dysgwyr yn ysgrifennu 4 gair y maen nhw'n eu cysylltu â'u cyfoed neu y bydden nhw'n eu defnyddio i'w disgrifio. (Cofnodi hyn ar daflen Swigod Siarad Hunlun)<br>• A all y dysgwyr ddyfalu pwy sy'n cael ei ddisgrifio?<br>• Gweithgaredd Parti Te'r Hetiwr Hurt - Mae'r dysgwyr yn eistedd mewn dwy res o gadeiriau sy'n wynebu ei gilydd. Maen nhw'n dweud wrth y person gyferbyn â nhw beth maen nhw'n meddwl y byddan nhw'n ei wneud yn y dyfodol, mae'r person gyferbyn â nhw'n cytuno neu'n anghytuno, gan ddweud beth maen nhw'n gobeithio ei wneud. Wedyn mae un rhes yn codi ac yn symud 2 sedd i'r chwith fel eu bod nhw'n eistedd gyferbyn â pherson newydd. Mae'r dysgwyr yn trafod elfen newydd am eu dyfodol, yna'n symud 2 sedd i'r chwith eto ac yn trafod cwestiwn arall, e.e. Ble byddan nhw'n byw? Gyda phwy y byddan nhw'n rhannu eu bywyd? A fyddan nhw'n hapus? Beth hoffen nhw ei gyflawni o hyd?<br>• Ar ôl casglu syniadau a meddyliau o'r gweithgareddau cynhesu, mae'r dysgwyr yn creu eu Hunlun 'ysgrifenedig' eu hunain. Gallen nhw ysgrifennu un ar gyfer y presennol ac yn ar gyfer 'nhw yn y dyfodol'. |
| Gweithgareddau estyn: | • Gellid creu Hunluniau drwy ddefnyddio ap 'Wordfoto' neu 'Skitch'. Gan ddefnyddio ffotograffau teuluol o gartref, gallen nhw hefyd ddefnyddio ap 'Face Film' i greu ffilm fer sy'n eu dangos yn tyfu o fod yn blentyn ifanc i sut gallen nhw edrych yn oedolyn. Gallai'r elfen weledol gyd-fynd ag elfen destunol yr Hunlun drwy ffilm gyda throsleisio neu 'god QR' wedi'i gysylltu ag 'Audioboo'.<br>• Gallai hyn gysylltu â gwaith ar Hunangofiannau, Cofiannau a Hunanbortreadau.<br>• A all y dysgwyr 'ysgrifennu' hunlun ar gyfer pobl enwog neu hanesyddol eraill yn seiliedig ar yr Hunanbortreadau?<br>• Bydd hyn yn gwneud arddangosfa ryngweithiol dda gyda hunluniau 'delwedd' sy'n codi a dangos eu hunluniau 'ysgrifenedig', neu hunluniau 'delwedd' sydd â 'chod QR' sy'n cysylltu â recordiad llafar o'r hunlun. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | |